Penrhyn-coch

Erbyn hyn mae Mrs J. E. Pugh wedi dychwelyd i'w swydd ac yn teimlo'n llawer iawn gwell. Diolch wn i Mrs Susan Roberts am gymryd gofal o'r gegin yn ystod y pedwar mis diwethaf ac am ofalu mor dda amdanom. Deallwn bod Mrs Eirian Morgan hefyd yn teimlo'n llawer cryfach ac y bydd yn ôl gennym yn fuan. Mae diolch yn ddyledus i Mrs Delyth Ralphs am bob cymorth a charedigrwydd yn ystod y misoedd diwethaf yma.

Yn ystod mis Mawrth bu'n rhaid ffarwelio â nifer o'n disgyblion. Dychwelodd Gari a Kelly Jones i Aylesbury a symudodd Emma a Mathew Gaunt gyda'u rhieni i Darlington. Cyflwynodd Emma a Mathew lyfrau diddorol i'r ysgol fel arwydd o'u gwerthfawrogiad am flynyddoedd hapus yn ein plith.

Wedi treulio blwyddyn gennym daeth yn amser i Miranda Shackell ddychwelyd i Seland Newydd. Ymwelodd ei rhieni â'r ysgol i gyflwyno llyfr hyfryd iawn ar Seland Newydd at wasanaeth y plant a chyflwynodd Miranda fascot bychan ar ffurf Kiwi i dim rygbi'r ysgol. (Gweler llun).

Wedi cyfnod yn y Borth a Llundain dychwelodd Sam Winters atom.

Yn ystod wythnos olaf y tymor cawsom y cyfle i groesawu saith disgybl newydd i'n plith. Llawen oedd pawb o'u gweld yn mwynhau eu hunain gennym. Dymunwn y gorau i Melanie Evans, Alyson Hopper, Lisa Humphries, Ffion Jones, Sioned Thomas, Jonathan Guy ac Adrian Paddock.